



DŴR CYMRU
WELSH WATER

G W Y B O D A E T H
C W S M E R I A I D

Alwminiwm mewn dŵr yfed

Mae llawer o bobl yn gwybod fod alwminiwm yn gallu bod yn bresennol mewn dŵr - ond faint sy'n gwybod ei fod hefyd yn gallu dod o bethau megis te a thabledi? Yn wir, ble mae alwminiwm yn bresennol mewn dŵr, mae'n cynrychioli dim ond 3 i 4% o'r lefel mewn person cyfartalog. Ond pam yw alwminiwm yn bresennol mewn dŵr yfed ac yn fwy pwysig, a yw'n ddiogel?

Mae alwminiwm i'w weld yn rheolaidd mewn pridd ac felly gall fod yn bresennol mewn dŵr sydd heb ei drin. Gellir gwaredu'r alwminiwm yma drwy gyfrwng prosesau gofalus mewn gweithfeydd trin dŵr. Ers 1989, mae Dŵr Cymru wedi cynnal rhaglen enfawr i ddiweddar ei weithfeydd trin dŵr. Cwblhawyd y rhaglen erbyn hyn, gan gyflwyno prosesau newydd a gwelliannau eraill.

Yn ogystal, defnyddir cyfansoddion alwminiwm i waredu amhureddau mewn gweithfeydd trin dŵr ac maent yn helpu i ostwng lefelau lliw, cymyledd a bacteria mewn dŵr cyn y prosesau trin a diheintio olaf. Gellir ychwanegu olion alwminiwm yn ystod y prosesau trin dŵr a gall cyfran weddilliol aros yn y cyflenwad dŵr. Er mwyn cadw'r lefelau'n sylweddol is na'r safon o 200 microgram per litr, mae Dŵr Cymru wedi gosod offer i wella a rheoli'r prosesau hyn yn otomatig. Bydd Dŵr Cymru bob amser yn cadw lefelau alwminiwm mor isel â phosibl.

Mae cemegau trin yn seiliedig ar haearn yn gallu gwneud yr un gwaith â chyfansoddion alwminiwm ac eisoes yn cael eu defnyddio mewn llawer o'n gweithfeydd trin dŵr, sy'n darparu oddeutu treian o ddŵr y cwmni. Fodd bynnag, nid yw dŵr craidd nifer o'r gweithfeydd eraill yn addas i'w drin gyda haearn, neu nid yw'r offer addas ar gael.

Y safon gyfredol ar gyfer alwminiwm mewn dŵr yfed yw 200 microgram per litr. Yn 1989 awgrymodd Adran yr Amgylchedd yn "Dŵr Yfed - Adroddiad Iechyd" - mewn ymateb i bryderon am gysylltiad rhwng alwminiwm mewn dŵr a chlefyd Alzheimer - nad oedd angen newid "yr arferion da cyfredol o ran defnydd o gyfansoddion alwminiwm". Ychwanegodd nad oedd y lefelau alwminiwm cyfredol mewn dŵr yfed yn peryglu iechyd pobl. Hyd yn oed mewn ardal ble roedd lefel alwminiwm y cyflenwad dŵr yn uwch na'r safon o 200 microgram per litr, byddai'r "gyfran o alwminiwm yn y dŵr yn dal yn is na'r gyfran gyfartalog mewn bwyd, ac yn llawer is na'r terfyn o bob ffynhonnell a bennwyd gan y WHO/Cydbwyllgor Bwyd ac Amaeth Arbenigol ar Ychwanegion Bwyd".

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i isafu'r defnydd o gyfansoddion alwminiwm wrth drin dŵr ynghyd â'r lefelau cyffredinol o fewn dŵr yfed. Mae ymchwil yn parhau, gydag ymgynghorwyr meddygol yn adolygu datblygiadau yn rheolaidd.